# Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth

## Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

Mis Awst 2024

## 1. Cyflwyniad

Mae Ymddiriedolwyr  Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (yr “Ymddiriedolwyr”) wedi paratoi'r Datganiad hwn o Egwyddorion Buddsoddi ar gyfer y Cynllun a fydd mewn grym o fis Gorffennaf 2024. Fe'i paratowyd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, gan ystyried canllawiau’r Rheoleiddiwr Pensiynau a chyngor ysgrifenedig gan gynghorydd buddsoddi annibynnol yn ôl yr angen.

Pwrpas y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi yw cyflwyno strategaeth fuddsoddi’r Ymddiriedolwyr ar lefel uchel, gan gynnwys yr amcanion buddsoddi, y strategaeth fuddsoddi a pholisïau buddsoddi eraill y mae’r Ymddiriedolwyr wedi'u mabwysiadu.

Rhaid i'r Ymddiriedolwyr adolygu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DoEB) mewn ymgynghoriad â Phrifysgol Aberystwyth ('y Cyflogwr sy'n Noddi') o leiaf bob tair blynedd; a heb oedi ar ôl unrhyw newid sylweddol mewn polisi buddsoddi neu yn amgylchiadau'r Cynllun.

## 2. Llywodraethu'r cynllun

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am lywodraethu asedau'r Cynllun a buddsoddi'r asedau hyn er budd gorau'r aelodau a'r buddiolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr yn arfer eu pwerau buddsoddi yn unol â Gweithred yr Ymddiriedolaeth a Rheolau'r Cynllun a'r gyfraith berthnasol. Pan fydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr wneud penderfyniad buddsoddi, rhaid i'r Ymddiriedolwyr dderbyn cyngor gan yr ymgynghorwyr perthnasol yn gyntaf. Maent yn credu bod hyn yn sicrhau eu bod yn ddigon cyfarwydd â'r materion dan sylw.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo gwaith buddsoddi asedau'r Cynllun o ddydd i ddydd i wasanaeth rheoli ymddiriedol Schroders Investment Solutions Limited ('**Schroders Solutions’**), y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y ‘**Rheolwr Ymddiriedol’**. Mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod y wybodaeth a'r profiad priodol gan y Rheolwr Ymddiriedol er mwyn rheoli buddsoddiadau'r Cynllun a'i fod yn cyflawni ei rôl yn unol â'r meini prawf ar gyfer buddsoddi a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi) 2005 (y “**Rheoliadau Buddsoddi”),** yr egwyddorion a gynhwysir yn y DoEB hwn ac unrhyw ganllawiau a chyfyngiadau buddsoddi perthnasol y cytunir arnynt gyda'r Ymddiriedolwyr.

Cydnabyddo’r Ymddiriedolwyr bod potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau fel rhan o weithgareddau busnes Rheoli Ymddiriedol parhaus. Fel cwmni a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, mae'n ofynnol i'r Rheolwr Ymddiriedol atal neu reoli gwrthdaro buddiannau. Pan fo rheolwyr trydydd parti y mae'r Cynllun yn buddsoddi ynddynt (y **“Rheolwyr Sylfaenol**”) hefyd yn cael eu rheoleiddio, efallai y bydd gofyn iddynt reoli gwrthdaro buddiannau fel sy'n berthnasol yn awdurdodaeth eu corfforaeth neu weithrediadau. Mae'r Rheolwr Ymddiriedol yn monitro'r achosion hyn o wrthdaro fel rhan o'i ffeilio rheoleiddiol (lle bo hynny'n berthnasol), ac fel rhan o adolygiad parhaus. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi adolygu Crynodeb o Fframwaith Gwrthdaro Buddiannau'r Rheolwr Ymddiriedol, mae'r polisi Gwrthdaro Buddiannau llawn ar gael i'w rannu gyda'r Ymddiriedolwyr pan fo angen.

Teimla'r Ymddiriedolwyr fod y strwythur llywodraethu yn briodol ar gyfer y Cynllun gan ei fod yn caniatáu i'r Ymddiriedolwyr wneud y penderfyniadau pwysig ar bolisïau buddsoddi ac, ar yr un pryd, yn dirprwyo'r gwaith dyddiol i'r Rheolwr Ymddiriedol fel y bo'n briodol.

## 3. Amcanion a strategaeth buddsoddi

Prif amcan Ymddiriedolwyr y Cynllun mewn perthynas â pholisi buddsoddi yw talu'r budd-daliadau a addawyd i aelodau'r Cynllun wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr wedi diffinio'r strategaeth fuddsoddi gan roi sylw dyledus i rwymedigaethau'r Cynllun.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gosod y strategaeth fuddsoddi ganlynol:

1) Caffael asedau tŵf a chyfatebol addas, gan roi sylw dyledus i'r risgiau a nodir yn y DoEB hwn, a fydd yn cynhyrchu incwm a thwf chyfalaf i dalu, yn ogystal ag unrhyw gyfraniadau gan y Cyflogwr sy'n Noddi, y buddion y mae'r Cynllun yn eu darparu wrth iddynt ddod yn ddyledus.
2) Cyfyngu ar y perygl y bydd yr asedau'n methu â bodloni'r ymrwymiadau dros y tymor hir gan ystyried unrhyw ofyniad ariannu statudol.
3) Sicrhau enillion ar fuddsoddiadau y disgwylir iddynt o leiaf fodloni rhagdybiaethau Actiwari y Cynllun dros y tymor hir.

Mae asedau twf yn cynnwys ystod amrywiol o fuddsoddiadau, gan gynnwys (ond heb eu cyfyngu i) ecwitïau marchnad ddatblygedig a datblygol, bondiau corfforaethol ac asedau amgen, sy’n cael eu dal gyda'r nod o berfformio'n well na rhwymedigaethau'r Cynllun dros y tymor canolig.

Mae asedau cyfatebol yn golygu buddsoddiadau gan gynnwys (ond heb eu cyfyngu i) fondiau llywodraeth y Deyrnas Unedig, bondiau corfforaethol gradd buddsoddi ac eitemau deilliadol, sy'n cael eu dal gyda'r nod o gyfateb i gyfradd llog a sensitifrwydd chwyddiant rhwymedigaethau disgwyliedig y Cynllun. Gelwir y rhain yn strategaethau buddsoddi sy'n cael eu gyrru gan rwymedigaethau a'u gyrru gan lif arian.

## 4. Trefniant gyda'r Rheolwr Ymddiriedol

Penodir Rheolwr Ymddiriedol gan yr Ymddiriedolwyr i weithredu strategaeth fuddsoddi'r Cynllun. Mae'r Rheolwr Ymddiriedol yn rheoli asedau'n uniongyrchol ar ran yr Ymddiriedolwyr yn ogystal â meddu ar awdurdod dirprwyedig i benodi, monitro a newid y Rheolwyr Sylfaenol. Penodir y Rheolwr Ymddiriedol i gyflawni ei rôl yn barhaus.

Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Rheolwr Ymddiriedol wedi cytuno ar Gytundeb Rheoli Ymddiriedol sy'n cyflwyno cwmpas gweithgareddau, amcanion perfformiad, sail codi tâl a materion perthnasol eraill y Rheolwr Ymddiriedol. Darparwyd copi o'r DoEB hwn i'r Rheolwr Ymddiriedol a rhaid iddo arfer ei bwerau gyda'r bwriad o weithredu'r egwyddorion a gynhwysir yma ac yn unol ag is-adran (2) o Adran 36 o Ddeddf Pensiynau 1995.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu gwerth am arian cyffredinol defnyddio'r Rheolwr Ymddiriedol yn rheolaidd, ac mae gwybodaeth am gostau cysylltiedig â buddsoddi wedi'i chynnwys yn yr

adroddiad monitro chwarterol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod y trefniadau hyn yn cymell y Rheolwr Ymddiriedol:

- alinio ei strategaeth fuddsoddi a'i benderfyniadau â pholisïau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr, ac
- asesu a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar berfformiad ariannol ac anariannol tymor canolig i hir dyroddwyr dyled neu ecwiti, ac ymgysylltu â dyrodddwyr o'r fath i wella perfformiad.

## 5. Trefniant gyda'r Rheolwyr Sylfaenol

Mae'r Rheoliadau Buddsoddi yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr ddatgelu ei bolisïau mewn perthynas â'i drefniadau gyda'i Reolwyr Sylfaenol a benodir gan y Rheolwr Ymddiriedol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymell eu Rheolwyr Sylfaenol trwy'r Rheolwr Ymddiriedol i alinio eu strategaethau buddsoddi â'r Ymddiriedolwyr a grybwyllir yn y DoEB. Fodd bynnag, caiff buddsoddiadau'r Cynllun eu gwneud yn gyffredinol trwy gronfeydd buddsoddi cyfunol, lle caiff buddsoddiadau'r Cynllun eu cyfuno gyda rhai buddsoddwyr eraill. O'r herwydd, efallai na fydd y rheolaeth uniongyrchol o'r broses o ymgysylltu â'r cwmnïau sy'n dyroddi'r gwarantau hyn, boed hynny at ddibenion llywodraethu corfforaethol (megis strwythur cyfalaf) neu ystyriaethau ariannol perthnasol eraill, yn cyd-fynd â pholisïau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr.

Lle gellir pennu hynny, mae'r Rheolwr Ymddiriedol yn asesu a yw'r trefniadau ar gyfer talu Rheolwr Sylfaenol yn cyd-fynd ag amcanion yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Rheolwr Ymddiriedol yn adolygu'r Rheolwyr Sylfaenol yn rheolaidd ar ran yr Ymddiriedolwyr er mwyn cymell y Rheolwyr Sylfaenol. Mae'r adolygiadau hyn yn cynnwys gwerthuso perfformiad buddsoddi, taliadau a chost trosiant y cronfeydd buddsoddi o'i gymharu â'u tebyg.

Pennir y dull o werthuso a thalu Rheolwyr Sylfaenol a’r terfyn amser gan feini prawf a osodir gan y Rheolwr Ymddiriedol.

## 6. Monitro

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro perfformiad y Rheolwr Ymddiriedol yn erbyn yr amcanion perfformiad y cytunwyd arnynt sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb Rheoli Ymddiriedol.

Mae'r Ymddiriedolwyr, neu unrhyw ymgynghorydd cymwys arall ar ran yr Ymddiriedolwyr, yn adolygu gweithgareddau'r Rheolwr Ymddiriedol yn rheolaidd i fodloni eu hunain bod y Rheolwr Ymddiriedol yn parhau i gyflawni ei waith yn gymwys, yn arfer ei bwerau buddsoddi gyda'r bwriad o weithredu egwyddorion y Cynllun hwn a bod ganddo'r wybodaeth a'r profiad priodol i reoli asedau'r Cynllun.

Os nad yw'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod y Rheolwr Ymddiriedol yn gydnaws â'u polisïau, byddant yn ystyried gwneud newidiadau i fandad y Rheolwr Ymddiriedol yn ôl yr angen.

## 7. Deilliadau

Caiff yr Ymddiriedolwyr ymrwymo i gontractau gyda gwrthbartïon, gan gynnwys banciau buddsoddi, er mwyn cyflawni trafodion deilliadol. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi derbyn cyngor ar addasrwydd y contractau ac wedi dirprwyo’r cyfrifoldeb o weithredu'r offerynnau hyn i'r Rheolwr Ymddiriedol. Defnyddir offerynnau deilliadol fel arfer at ddibenion rheoli risg yn y portffolio.

## 8. Sylweddu buddsoddiadau

Gellir sylweddu'r rhan fwyaf o asedau'r Cynllun yn rhwydd pan fo angen. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod y Rheolwyr Ymddiriedol yn ymwybodol o ofynion llif arian y Cynllun. Y Rheolwr Ymddiriedol fydd yn gyfrifol am sicrhau, o dan amodau arferol y farchnad, bod digon o asedau yn rhwydd i'w sylweddu er mwyn bodloni unrhyw ddadfuddsoddiadau y gofynna’r Ymddiriedolwyr amdanynt er mwyn bodloni'r llif arian hwn. Caniateir i'r Rheolwr Buddsoddi ddal hyd at 20% o asedau ar risg mewn buddsoddiadau caeth (fel y'u diffinnir yn y Cytundeb Rheoli Buddsoddiad), y mae'r Ymddiriedolwr/wyr yn cydnabod y gall gymryd amser ychwanegol i'w sylweddu. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried y risg hon yn erbyn y posibilrwydd o fod angen sylweddu'r asedau hyn ac yn fodlon ei fod yn ddull rhesymol o ystyried y terfyn amser a gofynion enillion y Cynllun.

## 9. Rheoli risg

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddi asedau'r Cynllun. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r risgiau hyn a'r dull o'u mesur a'u rheoli yn rheolaidd. Mae'r prif risgiau'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- **Risg camgymharu cyllid ac asedau/rhwymedigaethau** – y risg bod y lefel ariannu yn cael ei heffeithio'n andwyol oherwydd camgymhariad rhwng yr asedau a'r rhwymedigaethau. Caiff y risg hon ei rheoli yn y ffyrdd canlynol:
    - Defnyddir meincnod rhwymedigaeth fel dirprwy ar gyfer y rhwymedigaethau er mwyn mesur y newidiadau bras yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r Cynllun (oherwydd newidiadau i'r cynnyrch gilt perthnasol yn unig). Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro'r newid hwn mewn perthynas â'r newid mewn gwerthoedd asedau bob chwarter. Adolygir y meincnod rhwymedigaeth ar ôl pob adolygiad actiwaraidd, neu pan fydd digwyddiadau sylweddol yn y farchnad neu'r Cynllun (e.e. newid sylweddol mewn disgwyliadau chwyddiant).
    - Cydnabyddo’r Ymddiriedolwyr y risg o effaith negyddol ar lefel y cyllid oherwydd newidiadau i ragdybiaethau Actiwari'r Cynllun. Mae hyn yn cael ei reoli trwy anelu at enillion buddsoddiad sy'n uwch yn gyffredinol nag a awgrymir gan gyfradd disgownt y rhwymedigaeth.
    - Wrth osod ac adolygu strategaeth fuddsoddi, mae'r Ymddiriedolwyr yn archwilio sut mae'r strategaeth fuddsoddi yn effeithio ar risg gostyngiad. Mae risg gostyngiad y strategaeth

fuddsoddi hefyd yn cael ei mesur drwy gyfeirio at y meincnod rhwymedigaeth ac felly gellir ei asesu hefyd fel rhan o'r broses adolygu chwarterol.

- Caiff y risg hon hefyd ei monitro trwy adolygiadau actiwaraidd a buddsoddi rheolaidd.

- **Risg tanberfformio –** y risg o danberfformio wrth anelu at y meincnodau a'r amcanion a osodwyd gan yr Ymddiriedolwyr. Caiff y risg hon ei lleihau trwy ddefnyddio'r technegau canlynol:
  - Arallgyfeirio priodol ar draws dosbarthiadau asedau, o fewn sectorau a rhwng stociau unigol er mwyn lleihau effaith stoc neu sector penodol sy'n perfformio'n wael.
  - Defnyddio offerynnau a strategaethau sydd wedi'u cynllunio i reoli maint y gostyngiad.
  - Y defnydd dethol o reoli gweithredol pan fo'n briodol o ystyried amodau'r farchnad, dosbarth yr asedau a ystyrir a lle disgwylir i'r buddion (risg a/neu enillion) fod yn drech na'r costau/ffioedd ychwanegol.
  - Y Rheolwr Buddsoddi yn monitro perfformiad, prosesau a galluoedd y rheolwyr yn rheolaidd mewn perthynas â'u mandad a thrwy amrywio ar draws nifer o Reolwyr Sylfaenol.
- **Risg llif arian –** sef y risg bod y Cynllun yn methu talu budd-daliadau wrth iddynt ddod yn ddyledus, a mynd i'r afael â hynny trwy fonitro gofyniad llif arian y Cynllun er mwyn rheoli amseriad unrhyw fuddsoddiad/dadfuddsoddiad asedau.
- **Risg Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl) gan gynnwys risg yr Hinsawdd**– y risg o berfformiad anffafriol ar sail ffactorau cysylltiedig ag ACLl gan gynnwys newid hinsawdd. Cydnabyddo'r Ymddiriedolwyr newid hinsawdd fel risg ariannol faterol systemig, hirdymor i werth buddsoddiadau'r Cynllun. Cefnoga'r Ymddiriedolwr Gytundeb Paris a bydd yn anelu at gyflawni portffolio carbon niwtral (sero net) erbyn 2050 neu'n gynt. Byddir yn mynd i'r afael a'r risg hon yn y ffyrdd canlynol:
  - Ystyried senarios newid hinsawdd fel rhan o adolygiad rheolaidd yr Ymddiriedolwyr o'r strategaeth fuddsoddi o bryd i'w gilydd (os yn berthnasol).
  - Asesiad ACLl y Rheolwr Ymddiriedol ar adeg buddsoddi gyda Rheolwyr Sylfaenol.
  - Nodweddion cyffredinol ACLl yn cael eu monitro, gan gynnwys metrigau carbon y portffolio, gan yr Ymddiriedolwyr yn yr adroddiad llywodraethu chwarterol.
- **Risg noddi –** y risg na all y cyflogwr sy'n noddi gefnogi'r Cynllun sydd, oherwydd gochelgarwch, wedi'i ystyried wrth osod y strategaeth dyrannu asedau. Caiff cyfamod y Cyflogwr sy'n noddi ei adolygu gan yr Ymddiriedolwyr yn rheolaidd.

# 10. Ystyriaethau cysylltiedig â pherthnasedd ariannol y buddsoddiad

Ystyriaethau perthnasedd ariannol, sy'n cynnwys (ond heb eu cyfyngu i) ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ACLl) (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, newid hinsawdd), yr ystyria'r Ymddiriedolwyr fod iddynt berthnasedd ariannol.

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn y gall rhai ffactorau ACLl effeithio ar berfformiad ariannol a rhan o'i ddyletswydd ymddiriedol yw ymgorffori'r wybodaeth hon yn ei benderfyniadau buddsoddi i

leihau risg y buddsoddi a gwella enillion portffolio dros yr amser sydd ei angen i ariannu buddion y Cynllun yn y dyfodol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried ystod eang o risgiau ACLl, gan gynnwys llywodraethu corfforaethol, hawliau dynol, safonau llafur ac amgylcheddol ac ati ac mae'n credu bod risg yr hinsawdd yn peri risg ariannol berthnasol i'r asedau a fuddsoddir yn ei bortffolio.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi ystyriaeth briodol i bolisi ACLl y Noddwr wrth bennu polisi'r Cynllun (yn yr Atodiad). Mae'r Atodiad yn nodi gwybodaeth fanwl am sut mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried ffactorau ACLl lle bo'n ariannol berthnasol i'r Cynllun ac i ba raddau y mae'n ystyried ffactorau ACLl anariannol. Dylid nodi, er bod yr Ymddiriedolwyr o'r farn hon, yn ymarferol efallai na fydd bob amser yn bosib eu gweithredu'n llawn. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio defnyddio Rheolwr Ymddiriedol a Rheolwyr Sylfaenol sy'n ymochri â'r polisi hwn lle bo hynny'n bosib.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo'r gwaith dyddiol o fonitro a rheoli risgiau a chyfleoedd ACLl sydd o berthnasedd ariannol i'r Rheolwr Ymddiriedol, ac yn disgwyl iddynt ymochri cyn agosed â phosib â pholisi ACLl yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfforddus gyda'r ddirprwyaeth o ystyried bod dull buddsoddi ACLl y Rheolwr Ymddiriedol yn cyd-fynd â chredoau'r Ymddiriedolwyr a gadarnhawyd wrth benodi'r Rheolwr Ymddiriedol.

Derbynia'r Ymddiriedolwyr hyfforddiant rheolaidd a diweddariadau ar bynciau sy'n gysylltiedig ag ACLl fel adroddiadau, pleidleisio ac ymgysylltu â'r portffolio ACLl bob chwarter drwy gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr. Yn ogystal, bob blwyddyn, bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu addasrwydd parhaus gwaith y Rheolwr Ymddiriedol o fonitro a rheoli materion ACLl a materion yn ymwneud â'r hinsawdd trwy adroddiad blynyddol ACLl a herio neu ymgysylltu â'r Rheolwr Ymddiriedol, fel sy'n ofynnol wrth iddo nesau.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo integreiddiad risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd i'r broses fuddsoddi i'r Rheolwr Ymddiriedol. Mae'r Rheolwr Ymddiriedol yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Ymddiriedolwr er mwyn:

- Deall pa mor agored yw ei fuddsoddiadau i effaith y newid yn yr hinsawdd yn yr adroddiad monitro chwarterol, a
- Sicrhau bod buddsoddiadau newydd a phresennol yn ystyriol o risgiau a chyfleoedd cysylltiedig â newid hinsawdd.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'w Rheolwr Ymddiriedol ystyried eu polisi fel rhan o'r broses o ddewis rheolwr.

# 11. Ystyriaethau cysylltiedig â pherthnasedd anariannol y buddsoddiad

Wrth alinio â pholisi ACLl y Noddwr, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried materion y gellir eu hystyried yn rhai anariannol (megis ystyriaethau moesegol aelodau, materion effaith gymdeithasol ac amgylcheddol neu ystyriaethau ansawdd bywyd yn y dyfodol ar gyfer aelodau a buddiolwyr). Yn benodol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau buddsoddi cyfrifol a gonest. Er enghraifft, dros amser, mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl lleihau neu roi terfyn ar fuddsoddiad y Cynllun mewn rhai diwydiannau y maent yn credu eu bod yn cael effaith

negyddol ar gymdeithas a/neu'r amgylchedd e.e. Tybaco. Fodd bynnag, er mai ffactorau anariannol yw'r ysgogiad, nid yw'r Ymddiriedolwyr yn credu y bydd cymhwyso'r gwaharddiadau hyn a cheisio buddsoddi'n fwy cynaliadwy yn cael effaith andwyol ar berfformiad ariannol strategaeth fuddsoddi'r Cynllun dros y tymor hir.

## 12.Stiwardiaeth

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ddatblygu eu polisi stiwardiaeth eu hunain sy'n cynnwys pleidleisio (lle bo hynny'n berthnasol) ac ymgysylltiad. Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu y bydd stiwardiaeth briodol yn arwain at well rheolaeth o risgiau a chyfleoedd cysylltiedig ag ACLl a'r hinsawdd sy'n berthnasol yn ariannol. Disgwylir i hyn wella canlyniadau ariannol hirdymor y Cynllun sydd, yn y pen draw, er budd gorau aelodau a buddiolwyr y Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'w Rheolwr Ymddiriedol fod yn un o lofnodwyr Cod Stiwardiaeth y Deyrnas Unedig.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ymagwedd y Rheolwr Ymddiriedol at stiwardiaeth. Mae gan y Rheolwr Ymddiriedol ei bolisïau pleidleisio ac ymgysylltu ei hun wedi'u dogfennu yn ei Lasbrint Ymgysylltu sy'n nodi chwe thema cynaliadwyedd i'w blaenoriaethu ac sy'n llywio ymddygiad pleidleisio ac ymgysylltu'r Rheolwr Ymddiriedol. Felly, er mwyn sicrhau pleidleisio ac ymgysylltiad penodol â'r Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi dewis cyfunioni eu blaenoriaethau stiwardiaeth â rhai'r Rheolwr Ymddiriedol: y blaenoriaethau yw, Newid Hinsawdd, Cyfalaf Naturiol a Bioamrywiaeth a Hawliau Dynol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r Rheolwr Ymddiriedol fod yn ystyriol o'u blaenoriaethau polisi a stiwardiaeth hwy fel rhan o'i weithgareddau stiwardiaeth a phrosesau dewis rheolwyr.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu, monitro a herio'r Rheolwr Ymddiriedol lle bo angen mewn perthynas â gweithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu'r Rheolwr Ymddiriedol a'r Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol.

**Llofnodwyd: ..........................................................................**

**Dyddiad:..................................**

Ar gyfer ac ar ran Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth

# Atodiad – Credoau a Pholisïau ACLl

- Mae'r Ymddiriedolwyr yn gefnogol o bolisïau Buddsoddiad Cymdeithasol Gyfrifol a tharged sero net y Brifysgol ac yn credu y bydd gweithio ar y cyd â'r Brifysgol o fudd i'r holl randdeiliaid.
- Mae'r ymddiriedolwyr yn credu bod risgiau ACLl yn berthnasol yn ariannol. Er mwyn rheoli'r risgiau hyn, bydd yr Ymddiriedolwyr yn defnyddio cronfeydd sy'n integreiddio ACLl ac yn ystyried cronfeydd sydd ag amcanion ACLl penodol, lle bo hynny'n bosib.
- Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu bod rhai sectorau/diwydiannau yn cael effaith negyddol ar gymdeithas a/neu'r amgylchedd. Felly, er bod yr Ymddiriedolwyr yn dirprwyo polisïau gwaharddol penodol i'r Rheolwyr Buddsoddi, nod yr Ymddiriedolwyr yw lleihau/rhoi terfyn ar fuddsoddiad y Cynllun mewn sectorau dadleuol dros amser. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, ddiwydiannau tanwydd ffosil fel glo a thywod tar, cloddio glo thermol a chynhyrchu pŵer, ac olew a nwy anghonfensiynol, systemau arfau ac arfau dadleuol, y diwydiant tybaco, y rhai sy’n torri Cytundeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig a’r diwydiannau sy’n torri cyfraith ryngwladol. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro'r buddsoddiad mewn sectorau dadleuol yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr.
- Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu bod rhai marchnadoedd yn fwy effeithlon nag eraill a bod amrywio dulliau buddsoddi ACLl yn allweddol er mwyn rheoli risg a gwella'r enillion posib. Defnyddia'r Ymddiriedolwyr felly gyfuniad o ddull gweithredol a goddefol o reoli buddsoddiadau.
- Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu bod risg yr hinsawdd yn fygythiad systemig a allai effeithio'n ariannol ar y portffolio. Er mwyn rheoli'r risg hon, bydd yr Ymddiriedolwyr yn gweithio tuag at gyflawni portffolio sero net dros amser, gan gydnabod y cyfyngiadau sy'n eu hwynebu o ran buddsoddi mewn trefniadau cronfa a gydgasglwyd.
- Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod gan gronfeydd buddsoddi rôl bwysig i'w chwarae yn gyffredinol wrth hwyluso canlyniadau da i'r gymdeithas ehangach. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cefnogi effeithiau cadarnhaol ar gymdeithas trwy eu buddsoddiadau, cyn belled nad yw hyn yn amharu ar y gallu i gyflawni'r amcanion buddsoddi.
- Mae bod yn stiwardiaid cyfalaf cyfrifol yn bwysig ym marn yr Ymddiriedolwyr, nid yn unig er budd yr holl randdeiliaid ond i'r gymdeithas ehangach. Fodd bynnag, maent yn cydnabod y cyfyngiadau sy'n eu hwynebu o ran maint a graddfa. Er bod yr Ymddiriedolwyr wedi rhoi rhyddid llwyr i weithredu i'r Rheolwr Ymddiriedol a'r Rheolwyr Sylfaenol a benodwyd mewn perthynas â stiwardiaeth eu buddsoddiadau, maent yn adolygu polisïau eu Rheolwr Ymddiriedol a'u Rheolwyr Sylfaenol ar arfer hawliau pleidleisio ac yn monitro eu harferion ymgysylltu a'u gweithgarwch pleidleisio drwy ddirprwy bob blwyddyn.